Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 26ain TACHWEDD 2019.

1 Presennol: Cynghorwraig Ms Linda Jones (Cadeirydd), Cynghorwyr Mrs Barbara Mckeaveney, Mrs Carol McGregor, Mrs Ffion Mon Bullock, Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 Ymddiheuriadau:

Cynghorwyr Ms Rhian Roberts.
Cynghorwyr Sirol Mr Dafydd Roberts & Mr Eric Jones

3 CROESO & DIOLCHIADAU.

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB.

4.1 Nid dderbyniwyd/chafwyd neb yn datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar y rhaglen.

5 CYWIRO & ARWYDDO COFNODION.

5.1 Pwyllgor Llawn – 1af Hydref 2019 - cynnig gan (DH) ac eiliwyd gan (EPW) fod y cofnodion yn gywir.

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

6.1 **Cais Cynllunio Tyddyn Rhydd** – yn dilyn cyfarfod Mis Hydref, cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ymateb I'r ymgynghoriad ac fe ddylir disgwyl y cais llawn dechrau 2020.

6.2 **Chwarel Bwlch Gwyn** – cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn datgan pryderon y Cyngor yn dilyn cyfarfod Mis Hydref.

Arwyddo.....

6.3 **Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Chwarae – roedd y Clerc wedi derbyn ail bris ac oherwydd y symiau dan sylw (£25k) ac fe cytunwyd aelodau y dylai wneud cais trwy Ymddiriedolaeth Elusen y Cyngor Sir yn y flwyddyn newydd a sicrhau y dylai gwario rhan helaeth o'r arian mewn llaw tuag at y cynllun er mwyn ufuddhau rheolau y grant.**

6.4 **Adroddiad Blynyddol y Meysydd Chwarae** – yn dilyn sylwadau yr adroddiad, awgrymodd y Clerc yn dylai gosod arian yn y cyllideb nesaf ar gyfer adnewyddu a cynnal a chadw'r meysydd chwarae. Penderfynwyd trafod yn bellach yn y cyfarfod nesaf.

6.5 **Lles Cae Chwarae (Clwb Pel Droed)** – rhannwyd llythyr wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir gyda amodau newydd y prydles. Awgrymwyd y dylai newid hyd y brydles i 25 mlynedd. Nid oedd aelodau yn hapus gyda amod defnydd Cae Peldroed yn unig ac dylai ychwanegu amod rhybudd 6 mis yn terfynnu y lles. Gofynwyd i'r Clerc anfon ein sylwadau yn nol I'r Cyngor Sir (Adran Eiddo).

6.6 **Cyfarfod gyda'r Clwb PelDroed** – rhannwyd adroddiad gan y Clerc yn dilyn cyfarfod gyda aelodau y Clwb ym mhresenoldeb y Cadeirydd.

6.7 **Giat Cae Chwarae Mawr** – dyweodd y Clerc ei fod yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir (Adran Briffyrdd) yn gofyn iddynt ystyried gosod llinellau gwyn a'r Lon Groes tu allan mynediad y Cae Chwarae. Hefyd, atgoffa cwmni G L Jones o Fethesda, atgyweirio'r giat bach i mewn i offer Cae Chwarae Mawr yn dilyn derbyn yr Arolygiad blynyddol.

6.8 **Biniau Cae Chwarae -** angen gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod biniau newydd oherwydd difrod i'r rhai presennol.

6.9 **Giat Mochyn mynedfa Ffynnon Boston** – y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir (Adran Llwybrau) ystyried gosod giat newydd ger y safle.

Arwyddo……

6.10 **Llwybr Phoenix Metals** – angen dwyn sylw i'r Cyngor Sir fod angen torri gordyfiant ar hyd y llwybr.

6.11 **Llwybr PenClawdd Mawr** – angen sylw I'r ffens goed ar ddull gorsaf rheilffordd Gaerwen - y Clerc i ddod a hwn i sylw y Cyngor Sir (Adran Llwybrau)

6.12 **Diddymiad Arfaethedig Llwybr Troed Cyhoeddus ger yr A55** – rhifau 4 & 19 – nid oedd gan aelodau dim sylwadau i'r hyn a fwriedir.

6.13 **Lon Llangaffo** – dywedodd y Clerc fod llythyr anfonwyd i'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ail-lleoli arwydd 40mya tuag at cyfeiriad Llangaffo mewn llaw.

6.14 **Adroddiad Damwain ger Bronllys, Gaerwen** – nodwyd y digwyddiad ac ymestyn gwahoddiad i'r Heddlu i'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod yn bellach.

6.15 **Cais Gosod Llinellau Melyn ger y Gofeb** – dywedodd y Clerc ei fod wedi ail-agor trafodaethau gyda'r Cyngor Sir (Adran Briffyrdd) a gobeithio gweld datblygiadau yn y Gwanwyn. Yn y cyfamser,diolchwyd i pawb a gynorthwyodd yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio

6.16 **Gorchudd Tylllau Caead** – penderfynwyd atgoffa y Cyngor Sir (Adran Briffyrdd) fod angen dwyn sylw i pob un ohonynt ar hyd yr A5.

6.17 **Graffiti Cysgodfan Bws ger Stermat** – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn cwyn ac ei fod am gysylltu gyda cwmni ACS Cleaning, Caergybi am ei ddatrys.

6.18 **Coeden Nadolig** – cafwyd trafodaeth cryno yn sgil sawl sylwadau lleol ar cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd nad digon o amser ystyried a gosod coeden eleni ond gofyn I'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Cymuned Llanfairpwll er mwyn derbyn manylion a costau erbyn Nadolig 2020.

Arwyddo……

7 <u>MATERION CYLLID</u>.

7.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/10/2019 – cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor am misoedd Medi & Hydref 2019 gan cynnwys y cysoniad. Derbyniwyd yn unfrydol gan yr aelodau ac fe arwyddodd y Cadeirydd y fantolen banc.

7.2 Cymeradwyo Taliadau Mis Tachwedd 2019:

7.2.1 Mr O G Jones – Torri Llwybrau - £534.00
7.2.2 Mr Dafydd Hughes – Torri Caeau Chwarae - 875.00
7.2.3 Mr Dafydd Hughes – Torri Llwybrau - £220.00
7.2.4 Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad Allanol - £249.10
7.2.5 Royal British Legion – Rhodd - £30.00
7.2.6 Mr J Alun Foulkes – Cyflog (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr) - £720.00
7.2.7 HMRC – PAYE - £180.00

7.3 Nodwyd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Ysgrifennydd Pwyllgor Y Ganolfan yn diolch am ei rhodd ariannol.

7.4 Cais am Rhodd – Eisteddfod Mon Esceifiog – trafod yn bellach yng nghyfarfod Mis Ionawr 2020**.**

7.5 Gwefan y Cyngor – Clerc angen diweddaru gwybodaeth**.**

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu – 39 Gaerwen Uchaf, Gaerwen (HHP/2019/259) – Dim sylwadau.

8.2 Cais Llawn Dymchwel Swyddfa Bresennol ynghyd a Codi Swyddfa Newydd yn ei le yn Swyddfeydd Olew GD Jones, Stad Diwydiannol, Gaerwen – FPL/2019/250 Dim Sylwadau**.**

Arwyddo……..

9. PENDERFYNIADAU CEISIADAU CYNLLUNIO.

9.1 Penderfyniad Cais Cynllunio Tyddyn, Gaerwen (HHP/2019/22) - CANIATAD.

9.2 Penderfyniad Cais Cynllunio Lladd-dy Welsh Country Foods (FPL/2019/128) - GWRTHODWYD AM NAD OEDD DIGON O WYBODAETH GYDA'R CAIS CYNLLUNIO I FEDRU ASESU MAINT YR EFFEITHIAU ANDWYOL AR FADFALLOD CRIBOG YNGHYD AG UNRHYW FESURAU OSGOI NEU LINIARU FYDD RHAID WRTHYNT.

10. ADRODDIADAU.

10.1 Cynghorwyr Sirol – dim adroddiad

10.2 Un Llais Cymru – dim adroddiad

10.3 Ysgol Esceifiog – dim adroddiad.

10.4 Y Ganolfan – adroddiad digwyddiadau yn y Ganolfan am y Nadolig.

11 GOHEBIAETH.

11.1 Pencampwyr Iaith – nodwyd adroddiad Cyng Ffion Bullock gyda diolch.

11.2 Ymgynghoriadau Cynllunio – er gwybodaeth.

11.3 Dyletswyddau Bioamrywiaeth & Chydnerthedd Ecosystemau – er gwybodaeth.

11.4 Bil Llywodraeth Leol & Etholiadau (Cymru) – er gwybodaeth.

11.5 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Gyfartal – er gwybodaeth.

11.6 Peiriannau Dwr o ail-lenwi potell – er gwybodaeth. **Yn dilyn trafodaeth nid oedd unrhyw aelod a diddordeb fod y Cyngor yn cymeryd y cyfrifoldeb gan cynnwys costau cynnal a chadw yr offer.**

12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF -29ain IONAWR 2020.

12.1 Clowyd y cyfarfod am 8:45yh.

Arwyddo.....CADEIRYDD.....Dyddiad.